# Mynd i'r Afael ag Effaith Tlodi ar Addysg

## Astudiaeth achos

# Grymuso Teuluoedd

Deall Tlodi 1

Y Berthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5

## Ysgol Gynradd y Trallwng

Mae Ysgol Gynradd y Trallwng ym Mhowys. Mae 272 o ddysgwyr yno, ac mae 36% yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim

Gan ddefnyddio'r **rhestr wirio**, nododd yr ysgol fod angen **cynyddu ymwybyddiaeth** o sut mae ceisio a chael mynediad i gefnogaeth ar gyfer ystod o faterion, yn cynnwys **materion ariannol, tai**, a materion beunyddiol cysylltiedig â **iechyd a llesiant** eu plentyn. Mae'r ysgol yn cynnal cyfnodau **'cwrdd a chyfarch'** dyddiol, lle mae'r Cydlynydd Cyswllt Teulu, y Pennaeth a'r Dirprwy yn treulio amser yn yr ardal chwarae ac ar gael i sgwrsio gyda theuluoedd. Hefyd mae'r plant yn cael eu casglu gan rieni ar yr ardal chwarae gan yr athrawon dosbarth bob dydd. Rhoddodd y sgyrsiau yn ystod y cyfnodau hyn **gipolwg gwerthfawr ar y sefyllfa** i'r staff, ac roedd modd wedyn bwydo hynny i mewn i'r rhestr wirio. Cafwyd bod teuluoedd yn cael trafferth gyda'u **hiechyd meddwl** eu hunain wrth ymdopi â **materion cysylltiedig â thlodi**, a daeth yn eglur nad oedd y cyfnod byr oedd ar gael yn yr ardal chwarae yn ddigon i'r teuluoedd archwilio hyn, a bod angen rhagor o amser.



Mae gan yr ysgol **ystafell gymunedol** lle mae modd cynnal sesiynau gyda theuluoedd. Fel rhan o'r **Cynllun Gweithredu**, dechreuodd yr ysgol gydweithio'n agos â'r tîm **Cyngor ar Bopeth lleol**. Cwblhaodd y staff **hyfforddiant** i gefnogi rhieni i ddefnyddio'r **offer ar-lein** sydd ar gael gan Cyngor ar Bopeth, yn ogystal â sefydlu **system atgyfeirio** i deuluoedd oedd angen cefnogaeth fwy penodol. Sefydlodd yr ysgol hefyd system atgyfeirio debyg i'r **cyngor lleol**. Mae Cyngor ar Bopeth wedi darparu **baneri** sy'n cael eu harddangos yn yr ysgol i **gyfeirio** rhieni ymlaen at y pecyn offer gwirio budd-daliadau ar-lein a'r gwasanaethau ehangach sydd ar gael. Mae'r ysgol hefyd yn cynnal **grŵp rhieni a phlant bach** a sesiynau **galw heibio** i gael cyngor ar **iechyd a llesiant**, y mae'r **nyrs ysgol** a'r **ymwelydd iechyd** lleol yn ymwneud â nhw. Gall rhieni dderbyn arweiniad a **chefnogaeth** gyda iechyd eu plant ac mae modd **atgyfeirio** i dimau perthnasol os bydd angen. Mae'r sesiynau hyn hefyd yn galluogi sgyrsiau mwy cyffredinol ynghylch **iechyd a llesiant teuluoedd**, gyda chyfleoedd i **gyfeirio ymlaen**.

**O ganlyniad**, mae'r staff yn fwy **hyderus** yn **cefnogi teuluoedd** i ddelio â materion cysylltiedig â thlodi. Maen nhw'n teimlo **wedi'u grymuso** gan eu bod yn awr yn gallu cynnig atebion posibl yn hytrach na chydymdeimlo'n unig. Mae mwy o deuluoedd yn ymwybodol o sut mae rheoli'r **system o gefnogaeth** sy'n bodoli'n lleol. Adlewyrchwyd hyn yn y math o sgyrsiau dyddiol sy'n digwydd yn yr ardal chwarae. Mae'r **cynlluniau i'r dyfodol** yn cynnwys cynnal sesiynau cyngor byw rhithwir gyda'r tîm Cyngor ar Bopeth yn yr ystafell gymunedol. Mae cynlluniau hefyd ar gyfer **grŵp cefnogi rhieni** gyda Mind. Mae bwriad i gynnal grŵp **mam a'i baban** hefyd, gan gynnwys tylino babanod, er mwyn cysylltu â rhieni **o'r cychwyn cyntaf** hyd at yr adeg pan fydd eu plentyn yn dechrau yn yr ysgol. Wrth **werthuso'r** camau a gymerwyd, roedd yr ysgol yn teimlo bod clywed **yn uniongyrchol** yn yr ardal chwarae beth oedd ar deuluoedd ei angen wedi bod yn amhrisiadwy. Defnyddio hyn i hysbysu a chynnwys yr actorion perthnasol oedd yn galluogi'r gwaith **amlasiantaeth** sy'n dal i dyfu. Maen nhw bellach yn teimlo'n fwy hyderus yn estyn allan o'r ysgol i adeiladu **rhwydwaith o gefnogaeth** ac yn annog ysgolion eraill i wneud yr un fath er mwyn elwa mewn modd tebyg.

[Darganfod mwy am y rhaglen yma]

# Mynd i'r Afael ag Effaith Tlodi ar Addysg

## Astudiaeth achos

# Ymgysylltu â Bywyd yr Ysgol



### Canolfan Ddysgu Sir Benfro

Uned Cyfeirio Disgyblion sy'n cwmpasu nifer o ysgolion yn Sir Benfro yw Canolfan Ddysgu Sir Benfro. Mae 48% o'r disgyblion ar gyfartaledd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim

Gan ddefnyddio'r **rhestr wirio**, amlygodd yr ysgol fod angen iddi ddarparu **ffyrdd gwahanol** o ymgysylltu â dysgwyr difreintiedig a'u teuluoedd. **Uned cyfeirio disgyblion** sy'n cwmpasu nifer o ysgolion yw Canolfan Ddysgu Sir Benfro. Gan ddefnyddio'r **rhestr wirio**, amlygodd y Ganolfan fod angen datblygu gwell ffyrdd o sicrhau **cyfathrebu da** gyda theuluoedd a chyfyngu **absenoldebau'r** dysgwyr. Chwiliwyd hefyd am ffyrdd o wella'r **ymgysylltiad** â'r rhieni/gofalwyr er mwyn eu hannog i **ymwneud mwy** â bywyd yr ysgol ac addysg eu plentyn. Mewn achos penodol **nid oedd rhiant yn cyfathrebu** â'r ysgol am nad oedd ganddyn nhw fynediad i'r rhyngrwyd na chredyd ffôn symudol, felly nid oedd yn gallu gweld negeseuon nac apiau'r ysgol, ac roedd hynny'n arwain at berthynas wael â'r ysgol.

Fel rhan o'r **Cynllun Gweithredu**, cyflwynodd yr ysgol **Ap ClassDojo** i'r rhieni yn y **cyfarfod derbyn** a'u tywys trwy'r broses. O dan y drefn **galwadau cadarnhaol**, mae'r staff hefyd yn **ffonio rhiant/gofalwr pob dysgwr** yn holl ddarpariaethau'r Ganolfan, i roi diweddariadau cadarnhaol ynghylch y dysgwyr ac mae hyn wedi arwain at **ymgysylltiad gwell â theuluoedd**. Yn yr enghraifft uchod, rhoddwyd gliniadur i'r teulu er mwyn galluogi'r dysgwr a'r rhiant i ymgysylltu'n well â'r ysgol a chyfathrebu'n well trwy Ap ClassDojo.


Yn ystod **ymweliadau rhagarweiniol** â'r Ganolfan, hysbyswyd rhieni/gofalwyr am fynediad am ddim i gludiant i'r ysgol, prydau ysgol am ddim, ceisiadau am grantiau ac ati. Mae'r **polisi gwaith cartref hyblyg** a gyflwynwyd gan y ganolfan ddysgu i fodloni anghenion dysgwyr unigol wedi bod yn llwyddiannus.

Bu'r Ganolfan yn hyrwyddo digwyddiadau a ddarperir gan **Wasanaeth Partneriaeth Rhieni Sir Benfro** ar draws y rhanbarth er mwyn annog a **chynnig cyfleoedd i rieni gyfarfod â rhieni eraill** a darparu rhwydwaith cymdeithasol i rieni/ofalwyr. Yn ogystal, trefnwyd rhagor o ddigwyddiadau yn y canolfannau, gan gynnal **boreau coffi a phrynhawniau agored yn rheolaidd**.


Deall Tlodi 1

Cymryd Rhan ym Mywyd yr Ysgol 4

Y Berthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5

O ganlyniad i'r gwaith hyrwyddo gwelwyd bod **nifer y rhieni** sy'n ymgofrestru ar gyfer Ap ClassDojo **wedi cynyddu i fwy na 95%, gan olygu bod rhieni/gofalwyr yn cael mynediad at gymorth gan y staff** ac yn gallu gweld cynnydd eu plant yn yr ysgol. Roedd rhoi gliniadur ar fenthyg i un teulu wedi gwneud gwahaniaeth enfawr, o ran **ymwneud** y rhiant â'r Ganolfan a chynnydd y dysgwr. Cyflawnwyd canlyniad tebyg yn sgîl **galwadau ffôn** a diweddariadau rheolaidd i'r rhieni.

Ers cyflwyno **Ap Class Chart,** bu modd i'r staff **fonitro absenoldebau'r dysgwyr a phwy sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim** a thrafod hynny gyda'r rhieni/gofalwyr.

Wrth **werthuso'r** Cynllun Gweithredu gwelodd y ganolfan eu bod eisoes yn cwmpasu llawer o'r meysydd a bu'r ymarferiad rhestr wirio yn **gyfle** iddyn nhw wella eu dulliau o gynorthwyo dysgwyr sy'n byw mewn tlodi.


[Darganfod mwy am y rhaglen yma]

# Mynd i'r Afael ag Effaith Tlodi ar Addysg

## Astudiaeth achos

# Yr Ateb Cywir i'r Dysgwyr

## Canolfan Ddysgu Sir Benfro


Deall Tlodi 1

Gwisg Ysgol a Dillad 2

Bwyd a Newyn 3






Canolfan Ddysgu Sir Benfro sy'n cyflwyno'r Ddarpariaeth Arbenigol yn Sir Benfro, gan ddarparu ar gyfer dysgwyr ag anghenion cymhleth, trwy Unedau Cyfeirio Disgyblion a darpariaeth ADY.

Darllenodd staff a Llywodraethwyr y Ganolfan trwy'r **rhestr wirio** a rhoi ystyriaeth i'r 5 topig. **Ethos** y Ganolfan yw 'gwneud beth bynnag sydd ei angen' i helpu'r dysgwyr i ddysgu a chael mynediad at addysg gyflawn. Mae strategaethau eisoes ar waith i gefnogi dysgwyr sy'n byw mewn tlodi neu o dan anfantais. Defnyddiodd y Ganolfan Pris Tlodi Disgyblion fel **offeryn gwerthuso/mesur.**

Er bod ymwybyddiaeth dda o dlodi ymhlith y staff, byddai'n fuddiol iddynt gael **hyfforddiant diweddaru** ynghylch beth mae tlodi'n ei olygu i'w dysgwyr.

Mae polisi **gwisg ysgol** y Ganolfan yn llac. Does dim angen gwisg wedi'i brandio, dim ond dillad plaen, tywyll.

Nodwyd bod rhai dysgwyr yn y Ganolfan yn gymwys ar gyfer **prydau ysgol am ddim** ond ddim yn eu cael**.** Roedd angen sicrhau hefyd fod teuluoedd yn gallu cael mynediad at fwyd yn ystod gwyliau'r ysgol.

Yn achos dysgwyr **CA4**, nodwyd y byddai cymorth **tai** a sut i gael mynediad ato yn ddefnyddiol.

Fel rhan o'u **Cynllun Gweithredu,** trefnodd y Ganolfan hyfforddiant diweddaru gyda Plant yng Nghymru i roi trosolwg i'r staff o effaith pob dydd tlodi ar fywydau'r dysgwyr yn yr ysgol. Trefnodd y Ganolfan gyflwyniad i'r staff a'r llywodraethwyr ynghylch rhoi'r Cynllun Gweithredu ar waith.

Ychwanegwyd **gwybodaeth** am grantiau, gwasanaethau cymorth lleol a cheisiadau am brydau ysgol am ddim at y pecyn derbyn, er mwyn sicrhau bod pawb sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn gallu eu **cael** a bod teuluoedd yn gwybod ble mae cymorth ar gael, e.e. prosiectau cymunedol, banciau bwyd. Bu'r Ganolfan yn **monitro** ac yn olrhain e-FSM, i alluogi'r staff i wybod pa ddysgwyr i'w targedu â chymorth.

Mae **brecwast iach**, dŵr a **byrbrydau** ganol bore ar gael i **bob dysgwr** yn lleoliadau'r Ganolfan, wedi'u hariannu trwy gyllidebau'r ALl. Ymgorfforwyd cynllun tyfu **cynnyrch** yn y cwricwlwm a'i gysylltu â choginio a pharatoi bwyd.

Bu'r Ganolfan yn ystyried y ffordd orau o ddefnyddio'r grant **tlodi mislif** i helpu'r dysgwyr benywaidd. Canlyniad hyn oedd sicrhau bod nwyddau mislif a dillad isaf ar gael i bob myfyriwr benywaidd yn CA3 a CA4, gan gynnwys yn y toiledau hygyrch.nm

Hyfforddwyd holl staff CA3 a 4 i gyflwyno'r rhaglen **Digartrefedd Ieuenctid**.

Yn dilyn hyfforddiant diweddaru a gyflwynwyd gan Plant yng Nghymru, mae'r holl staff ar draws darpariaethau'r Ganolfan yn **deall** mwy am sut mae tlodi'n edrych ac yn teimlo i'w dysgwyr, ac yn gallu **addasu** eu cymorth yn well ar gyfer dysgwyr unigol.

Gall staff ddefnyddio Ap Dojo i dynnu sylw'r rhieni at ffynonellau **cymorth** (e.e. Mynediad at y Grant Datblygu Disgyblion, banciau bwyd) a helpu gyda cheisiadau ar gyfer y rhain a phrydau ysgol am ddim. Mae pob plentyn ar draws y Ganolfan yn **barod i ddysgu** ar hyd y diwrnod ysgol ac ni fyddant yn methu canolbwyntio am eu bod yn llwglyd, ar ôl cael brecwast a byrbryd iach ganol bore.

Cynigiwyd cymorth i'r rhieni/gofalwyr dros y ffôn, a arweiniodd at 10 dysgwr arall yn cael **prydau ysgol am ddim**.

Gwelir **llai o absenoldeb gan** ddysgwyr benywaidd, sy'n gallu cael mynediad at nwyddau mislif yn yr holl doiledau benywod a thoiledau anabl ar draws y ddarpariaeth.

Cyflwynir y rhaglen Digartrefedd Ieuenctid i holl ddysgwyr CA4 ynghyd â mynediad at lwyfan cymorth.


Darganfod mwy am y rhaglen yma

# Mynd i'r Afael ag Effaith Tlodi ar Addysg

## Astudiaeth achos

# Hysbysu Teuluoedd

Deall Tlodi 1

Y Berthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5





## Ysgol Gynradd y Trallwng

Mae Ysgol Gynradd y Trallwng ym Mhowys. Mae 272 o ddysgwyr yno, ac mae 36% yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim

Gan ddefnyddio'r **rhestr wirio**, nododd yr ysgol fod angen darparu **gwybodaeth 'un stop'** ynghylch sut mae ceisio a chael mynediad i gefnogaeth ar gyfer ystod o faterion, gan gynnwys **materion ariannol, tai** a materion beunyddiol ynghylch **iechyd a llesiant** eu plentyn. Mae'r ysgol yn cynnal cyfnodau **'cwrdd a chyfarch'** dyddiol, ac mae gan y Cydlynydd Cyswllt Teulu **bolisi drws agored** gyda swyddfa ym mlaen yr ysgol sy'n weladwy wrth ddod i mewn. Fodd bynnag, roedd hi'n cael bod teuluoedd weithiau am gael cyngor ganddi ynghylch ble i gael hyd i wybodaeth yn unig, ac roedd hi am gael hyd i ffordd o wneud hynny'n **gyflym ac yn hwylus** os na allai siarad â nhw ar unwaith, neu os oedd eu hamser wedi'i gyfyngu i alw heibio'n gyflym.

Mae gan yr ysgol **gronfa o wybodaeth** a dolenni wrth law, ond roedd yr wybodaeth yn cael ei rhoi i'r rhieni ar sail angen, ac yn aml byddai angen wedyn i deuluoedd weld y Swyddog Cyswllt Teulu os oedd angen rhywbeth arall arnyn nhw, a doedd hynny ddim yn ymddangos yn **ddefnydd effeithlon** o amser neb.
Penderfynodd y Swyddog Cyswllt Teulu greu **'siop un stop'** ar-lein yn null y **Padlet** sydd ar gael i ysgolion o'r **prosiect Pris Tlodi Disgyblion** ar gyfer gwybodaeth y gallai fod ar deuluoedd ei hangen i'w cefnogi gyda materion ariannol, tai, iechyd a llesiant etc. Yna chynhyrchodd **daflen** â **chôd QR** yn gysylltiedig, sydd gyda hi yn yr ardal chwarae ac sydd **wrth law yn hwylus** iddi yn ei swyddfa ac o amgylch yr ysgol.



**O ganlyniad**, mae gan y Cydlynydd Cyswllt Teulu rywbeth **wrth law yn hwylus** os bydd rhiant yn galw i mewn ac mae hi'n methu eu gweld nhw ar y pryd. Gallai hynny fod yn ddigon, neu gallan nhw godi rhywbeth gyda hi ar adeg arall. Mae hefyd yn cael ei ddarparu'n **gyfeirbwynt i'r dyfodol** yn dilyn cefnogaeth. Mae **teuluoedd yn teimlo eu bod yn 'cael eu gweld'** ar unwaith ac mae eu cydberthynas yn cael ei gryfhau. Mae hefyd yn golygu bod y Cydlynydd Cyswllt Teulu yn gallu **neilltuo amser yn well** i gynnal sesiynau a chynnig cefnogaeth wyneb yn wyneb. **Diweddaru'r** ddolen yn barhaus, fel bod yr wybodaeth yn ddilys ac yn **berthnasol** yw'r cyfan sy'n angenrheidiol bellach er mwyn i hyn barhau.
Wrth **werthuso'r** camau a gymerwyd, barn yr ysgol oedd y gall yr **atebion symlaf** yn aml fod yn rhai **mwyaf grymus**. Bu'r **rhestr wirio** yn offeryn defnyddiol iawn ar gyfer cydnabod hyn, gan ei bod yn dangos, er gwaethaf gwaith caled y Cydlynydd Cyswllt Teulu, fod mater yr oedd angen rhoi sylw iddo er mwyn sicrhau bod y system yn fwy effeithlon a bod **amser yn cael ei dreulio'n well** i bawb.

Darganfod mwy am y rhaglen yma

# Mynd i'r Afael ag Effaith Tlodi ar Addysg

## Astudiaeth achos

# Gwneud Cynnydd Da





## UCD Stepping Stones

Mae Stepping Stones yn un o Ganolfannau Adnoddau Dysgu Sir Benfro yn Neyland, ac mae'n darparu ar gyfer dysgwyr ag anghenion cymhleth/ffobia ysgol yn CA3 a CA4.

Roedd dysgwr yn UCD Stepping Stones yn dewis peidio â siarad, yn awtistig o bosib, yn fach am ei hoed, gyda diffyg hyder a hylendid personol gwael. Gwrthodai'r dysgwr fwyta o flaen pobl eraill ac roedd yn wyliadwrus o ddynion.

Roedd llawer o staff a **gwasanaethau** yn ymwneud â'r dysgwr, gan gynnwys gofal cymdeithasol, pediatregydd, Gweithredu Dros Blant a'r nyrs ysgol.

Amlygodd y **rhestr wirio** fod angen rhoi sylw i nifer o faterion, gan gynnwys trefnu asesiad awtistiaeth, offer i annog bwyta, rhoi sylw i hylendid personol a strategaethau i hybu cyfathrebu ac ymddiriedaeth yng nghyswllt oedolion eraill.

Gan fod y dysgwr ar lefel CA4, roedd angen ystyried dewisiadau **pontio** hefyd.

Fel rhan o'r **Cynllun Gweithredu,** nodwyd aelod gwrywaidd o staff i feithrin perthynas gref â'r dysgwr, i annog rhyngweithio a pharodrwydd i 'roi cynnig arni'. Cynigiwyd ELSA ar sail 1:1, gyda sesiynau cysylltiedig â'r ardd, celf a rhoi sylw i emosiynau. Cefnogodd yr ysgol asesiad awtistiaeth a chysylltwyd ag arweinydd awtistiaeth y sir.

Defnyddiwyd sawl dull gweithredu i annog y dysgwr i fwyta ac archwilio bwyd. Roedd hyn yn cynnwys darparu ystafell dawel ar gyfer bwyta, cynnig bwyd oedd yn gofyn am sgiliau motor isel i ddechrau. Cynigiwyd cinio mewn bocs cludfwyd i'w fwyta gartref a darparwyd parseli bwyd. Defnyddiwyd trefniadau 'bydi' i annog y dysgwr a dysgwr arall i goginio gyda'i gilydd ac archwilio ryseitiau bwyta'n iach ar gyfer BTEC. Darparwyd nwyddau mislif a nwyddau hylendid am ddim.

Trefnwyd gwaith gwirfoddol mewn canolfan achub anifeiliaid, gyda chymorth y rhiant, a arweiniodd at weithio gyda chi oedd yn dysgu sgiliau ystwythder. Drwy hyn, cafodd ei hannog i siarad â'r ci ac ag unigolyn arall, sef y person oedd yn arwain.

Darparwyd gliniadur, deunyddiau celf, cyfrifiannell, nwyddau ysgrifennu a bag ysgol i annog ymgysylltiad ag addysg.

Cyfathrebwyd yn helaeth â darparwyr ôl-16 ond nid oedd y dysgwr yn ymateb i negeseuon e-bost ynghylch cyfweliadau. I ddatrys hyn, cysylltodd y staff â'r darparwyr i drefnu ymweliadau a chyfweliadau ffurfiol.

Mae cyfraniad y staff i gefnogi'r **Cynllun Gweithredu** ar gyfer y dysgwr dan sylw wedi arwain at fwy o hyder, hunan-fynegiant a chyfathrebu. Gwelodd y staff fod y dysgwr yn ymwneud yn well ag ystod o weithgareddau, megis gofal anifeiliaid, ymweld â'r llyfrgell, a chaiacio. Yn hytrach na bod arni ofn mentro, gwelwyd meddylfryd twf, gwell canolbwyntio a gwell sgiliau rhyngweithio cymdeithasol.

Dangosodd y dysgwr barodrwydd i dderbyn cymorth gan y staff, gan gynnwys dynion, a datblygodd berthnasoedd newydd gyda dysgwyr yn yr ysgol a'r tu allan iddi.

Mae presenoldeb y dysgwr wedi gwella a dangosodd agwedd gydwybodol at ei hastudiaethau, gan gyflawni cymwysterau TGAU mewn Saesneg, mathemateg a rhifedd. Ar ôl rhagori ar ei gobeithion cychwynnol mae wedi troi ei sylw at gymwysterau pellach. O ganlyniad, roedd gan y dysgwr yr hyder i newid ei dewis pontio, gan symud o gwrs ymgysylltu i gwrs Lefel 2 yng Ngholeg Sir Benfro a phrofiad gwaith mewn stablau marchogaeth.

Gwnaeth y staff y sylw fod y dysgwr yn edrych yn iachach ac yn hapusach.

Darganfod mwy am y rhaglen yma

# Mynd i'r Afael ag Effaith Tlodi ar Addysg

## Astudiaeth achos



# Parod i Ddysgu



## Ysgol Gynradd y Trallwng


Bringing out the best in each other


Mae Ysgol Gynradd y Trallwng ym Mhowys. Mae 272 o ddysgwyr yno, ac mae 36% yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim

Gan ddefnyddio'r **rhestr wirio**, nododd yr ysgol angen am wella **cyflwyniad cyffredinol rhai grwpiau o ddysgwyr.** Roedd angen hefyd bod gan grwpiau o ddysgwyr hŷn ddealltwriaeth well o ofal personol i edrych yn drwsiadus, a mwy o fynediad at y cynnyrch angenrheidiol. Mae gan yr ysgol agwedd hyblyg at **wisg ysgol** o ran logos, ac mae hefyd yn gweithio'n galed i sicrhau bod rhieni'n cael eu cefnogi i wneud cais am y **Grant Datblygiad Disgyblion** lle gellir ei hawlio. Datgelodd trafodaethau gyda rhieni, fodd bynnag, fod ffactorau megis **rhy ychydig o eitemau**, diffyg cyfleusterau golchi addas ac amser oherwydd **oriau gwaith hir** yn golygu bod darparu gwisg ysgol a dillad rheolaidd glân yn aml yn broblem. Adroddodd y rhieni hefyd fod eitemau oedd wedi mynd yn rhy fach yn aml yn cael eu trosglwyddo i eraill yn anffurfiol trwy grŵp Facebook dan arweiniad y rhieni.

Fel rhan o'u **Cynllun Gweithredu**, sefydlodd yr ysgol **gronfa gwisg ysgol** yn yr ysgol, lle caiff cyfraniadau gwisg ysgol sydd wedi mynd yn rhy fach eu casglu, eu golchi ar y safle a'u rhoi mewn bwndeli yn ôl oed. Mae'r rhain wedyn ar gael trwy'r **Cydlynydd Cyswllt Teulu**, sy'n cydweithio'n agos â theuluoedd er mwyn cydnabod ac ymateb i'w hanghenion. Mae'r ysgol hefyd yn gweithio gyda'r **gymuned**, yn cynyddu ymwybyddiaeth o'r mater gyda grwpiau lleol ac yn derbyn cyfraniadau o becynnau dillad isaf i'w cynnwys yn ogystal. Mae'r gronfa gwisg ysgol yn bodoli ochr yn ochr ac yn aml mewn cydweithrediad â'r grŵp Facebook **dan arweiniad y rhieni**, fel bod modd trosglwyddo gwisg ysgol neu ei brynu am bris isel yn uniongyrchol, gan gynnwys gyda rhieni o'r ysgol uwchradd. Ar ben hynny, mae'r ysgol yn derbyn cyfraniadau cymunedol i **fanc hylendid**, lle caiff cynhyrchion y mae ar y dysgwyr hŷn eu hangen eu rhoi mewn pecynnau. Cynhelir **gweithdai** yn rheolaidd i gynyddu ymwybyddiaeth fel rhan o'r **Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Llesiant**, ac mae'r dysgwyr yn cael pecyn i fynd adref. Mae pecynnau hefyd ar gael ar gais, a chofnodir y rhai sy'n eu casglu a'r cyngor a roddwyd er mwyn cyfrannu at **ddarlun yr ysgol o'r plentyn cyfan**.








**O ganlyniad**, mae'r ysgol wedi gweld **cynnydd** yn nifer y dysgwyr sy'n cyrraedd yr ysgol mewn **gwisg addas**, yn ogystal â chynnydd yn y dysgwyr hŷn sy'n cyrraedd yn edrych yn drwsiadus ac yn **barod i ddysgu** heb ofni sylw digroeso gan eu cyfoedion. Ymhlith y cynlluniau i'r dyfodol mae sefydlu **cronfa o gotiau**, gan y gwelwyd dysgwyr hefyd yn cyrraedd yr ysgol yn wlyb neu'n oer oherwydd dillad allanol anaddas.
Wrth **werthuso'r** camau a gymerwyd, barn yr ysgol oedd bod cryfder eu **perthynas** gyda'r rhieni a'r gymuned wedi bod yn ffactor allweddol ar gyfer llwyddiant, gan fod modd deall y materion oedd dan sylw a'u **'perchnogi'** o'r cychwyn. Barnwyd hefyd fod cysylltu'r gronfa hylendid â gweithdai **ymwybyddiaeth** yn ffactor allweddol, gan fod **gwybodaeth a dealltwriaeth** wedyn yn mynd law yn llaw â derbyn y cynhyrchion eu hunain. Ymhlith y **cyngor** i eraill mae ymgeisio'n brydlon am y **grantiau** angenrheidiol ar gyfer adnoddau o'r cychwyn cyntaf, a sicrhau **cyflymdra cyson** wrth ehangu.


Darganfod mwy am y rhaglen yma

# Mynd i'r Afael ag Effaith Tlodi ar Addysg

## Astudiaeth achos

# Cefnogi Teuluoedd

Deall Tlodi 1
Bwyd a Newyn 3
Y Berthynas rhwng y Cartref a'r Ysgol 5

## Ysgol Gynradd Maendy

Mae Ysgol Gynradd Maendy yng Nghasnewydd. Mae yno 539 o ddysgwyr gyda 30% ohonynt yn gymwys am brydau ysgol am ddim.

Gwelodd yr ysgol fod angen rhoi hyfforddiant **ymwybyddiaeth o dlodi** i'r staff a sicrhau bod materion tlodi yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth roi sylw i **bolisïau** a'r **cwricwlwm**. Oherwydd **ymddiriedaeth** teuluoedd ynddi a'i chysylltiadau â **gwasanaethau ategol**, roedd yr ysgol yn ymwybodol ei bod mewn sefyllfa dda i **ddangos y ffordd** at y gwasanaethau sydd ar gael i'w theuluoedd ond roedd angen sicrhau bod y staff yn llwyr ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael a bod **cronfa ganolog** o wybodaeth ar gael.
Er bod nifer da yn dod i'r clwb brecwast, roedd yr ysgol hefyd yn pryderu bod y dysgwyr mwyaf agored i niwed yn colli cyfle i gael **dechrau iach** i'r diwrnod am eu bod yn hwyr yn deffro neu'n gorfod gwneud eu ffordd eu hunain i'r ysgol. Roedd diffyg cynnyrch ffres yn yr hamperi bwyd a roddir i'r ysgol hefyd yn faes yr oedden nhw am roi sylw iddo.
Roedd diffyg **darpariaeth ar gyfer plant cyn ysgol a'u teuluoedd** hefyd yn achosi pryder.




Derbyniodd staff yr ysgol **hyfforddiant** ynghylch tlodi, arwyddion tlodi ac arwyddion camfanteisio.
Defnyddiwyd **holiaduron staff** i gasglu data a choladu gwybodaeth am gysylltiadau â sefydliadau, gyda gwaith canfod ffeithiau dilynol i lenwi unrhyw fylchau yn yr wybodaeth. Bellach, defnyddir **Padlet Cymunedol** i gadw'r holl ffurflenni cyfeirio at wasanaethau mewn un man.
Prynwyd barrau brecwast ar gyfer pob dosbarth ac mae'r ysgol bellach yn cyfranogi yn rhaglen **FareShare** i helpu'r dysgwyr a'u teuluoedd i fwyta'n iach.
Yn ogystal, gwnaed cais gan yr ysgol a sicrhawyd arian trwy'r CRhA i ddechrau prosiect **Mamau Ynghyd** a chynhelir cyfarfodydd a digwyddiadau eraill i deuluoedd/rieni yn yr ysgol er mwyn i rieni gael mynediad i fan diogel ac wynebau diogel.

**O ganlyniad**, cyfeirir rhieni ymlaen at wasanaethau perthnasol a all eu helpu pan fydd materion yn codi. Caiff pob plentyn frecwast ac mae cysylltiadau newydd â'r Tîm Cynhwysiant Iechyd wedi galluogi cynnal **sesiynau iechyd** galw heibio yn fisol.

Mae'r **cynlluniau i'r dyfodol** yn cynnwys ehangu Tîm Llesiant a Thegwch yr ysgol a lleoli rhai gwasanaethau yn barhaol yn yr ysgol ar hyd yr wythnos. Mae'r **hyn a ddysgwyd** yn sgîl y broses yn cynnwys cydnabod bod dosbarthu gwybodaeth yn y dyddiau cynnar gan ddefnyddio fideos yn iaith y cartref a dehonglwyr ifanc yn fuddiol.

Mae gwaith i **rannu a datblygu cysylltiadau** â darparwyr allanol wedi cyfoethogi'r cymorth y gall yr ysgol ei gynnig i deuluoedd mewn angen ac wedi arwain at gymorth ychwanegol, er enghraifft, gan fyfyrwyr **gwaith ieuenctid**, y **Tîm Cynhwysiant Iechyd** a'r **Heddlu** lleol. Anogwyd **llais y disgybl** hefyd trwy roi cyfle i'r dysgwyr mwyaf agored i niwed siarad â Chomisiynydd Plant Cymru.

Darganfod mwy am y rhaglen yma